

COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 2 HYDREF 2024

Yn bresennol:	Y Cadeirydd Hefin W. Jones
Y Cyngorwyr:	Elfed Roberts (Cyngorydd Sir) Enid Roberts, Idwal Williams, Richard Davies, Sarah Hughes, Aron Roberts, Iwan Jones
Hefyd yn bresennol:	Karen Hughes (Swyddog Ariannol) Lona Williams (Clerc)
Ymddiheuriadau	Annest Smith, Keith O'Brien , A Huw Jones, Llywarch Davies,

2405 - COFNODION

Cyflwynwyd y cofnodion a adroddodd y cyngorydd Enid Roberts bod gwall o ran pa oriad oedd ganddi ar y cofnodion. Roedd y goriad i Fryn y Gofeb ganddi a nid Gardd Salem. Adroddodd y cyngorydd Hefin Jones bod angen ychwanegu enw Karen Hughes i'r rheini a fuo'n cynorthwyo i lanhau Llys Ednowain.

2406 - MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Adroddodd y clerc ei bod wedi e-bostio PC Eiliw Roberts yn ei gwahodd i'r cyfarfod a na chafwyd ymateb, penderfynwyd e-bostio PC Eiliw Roberts eto i'w gwahodd i gyfarfod mis Tachwedd. Adroddwyd bod perchenog y garej wedi ei weld yn gweithio ar gar ac unigolyn arall yn gweithio ar gar ei hun nghanol y ffordd gan atal ceir rhag pasio. Adroddwyd bod pryder am hyn, a phe bai yna Ambiwlans neu unrhyw un o'r gwasanaethau brys angen pasio yna ni fyddai modd gwneud.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwyllo – Dim adroddiad pellach.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddwyd bod y clerc heb dderbyn ymateb gan lolo Tegid o'r adran drafnidiaeth a Dafydd Williams pennaeth asiantaeth yr amgylchedd. Adroddwyd bod e-bost wedi ei yrru i PC Delia Consterdine yn nodi bod y cyfarfod wedi ei ohurio a nid oedd ymateb i'r e-bost cytunwyd i yrru e-bost arall i wahodd PC Delia Consterdine i gyfarfod mis Tachwedd. Nid oedd ymateb i'r e-byst blaenorol a yrodd y cyngorydd Elfed Roberts.

1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – Adroddwyd gan y cyngorydd Hefin Jones bod Rhian Jones wedi cyfarfod gyda plant Trawsfynydd yn Ysgol y Moelwyn a bu ymateb da iawn. Adroddwyd y bydd cyfarfod arall yn cael ei gynnal ar Nos Fawrth yr 8fed o Hydref er mwyn ffurfoli'r pwyllgor i gyd fynd ar cais. Darllenwyd yr e-bost: "Gwahoddir chi'n swyddogol i eistedd ar weithgor prosiect Neuadd Trawsfynydd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bwylgor y neuadd, pwyllgor rheoli Trawsnewid, pwyllgor Cyngor Cymuned Trawsfynydd a aelodau annibynnol i'r preswyl o ddatblygu cynlluniau a mynd trwy'r broses o gyflwyno'r cais grant . Pwrpas y gweithgor yw sicrhau gwellianau i'r Neuadd gan ddilyn canllawiau cynllun datblygu'r pensaer Rhys Llwyd. . Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw un a oedd a diddordeb fod yn rhan o'r cyfarfod.

2068(2) - Mynwent Pencefn – Adroddwyd gan y clerc na chafwyd ymateb gan Eric Edwards. Cysylltwyd â Dafydd Thomas swyddog cynllunio a rheolaeth datblygu. Cafwyd e-bost yn ôl yn nodi bod Dafydd allan o'r swyddfa tan y 14eg o Hydref. Penderfynwyd i yrru llythyr o ddiolch i Eric Edwards ac i ofyn am anfoneb am y gwaith a gwblhawyd.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Adroddwyd bod pris wedi ei dderbyn eisioes o £1203.00 i ail wneud y llinellau gwyn gan Mr Rhys Williams. Adroddodd y cyngorydd Elfed Roberts ei fod wedi bod yn trafod gyda Adrian Williams am bosibiliadau'r cyngor o fabwysiadu'r tir. Dywedodd Adrian Williams fod grant ar gael gan y llywodraeth a'i fod am wneud cais am y grant yma cyn diwedd Tachwedd.

2229(7) - Lloches Bws Ty Gwyn – Adroddwyd bod y clerc wedi derbyn yr ymateb canlynol gan Rhian Williams " ein awgrym ni yw i droi'r lloches fel ei bod yn gwynebu'r tŷ. Byddai hyn yn cysgodi'r teithwyr. Ynglŷn ar lloches wreiddiol, tydi ddim yn bosib i ni rhoi y math yma o lloches yn ôl gan nad yw hi ddim fyny i ofynion iechyd a diogelwch" Penderfynwyd i yrru e-bost yn ôl i Rhian yn cymeradwyo'r awgrymiad.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Penderfynwyd yrru llythyr drwy'r post i Mr David Owen i ofyn am anfoneb am y gwaith a gwblhawyd. Adroddwyd bod bonyn ar un o'r sylfaeni'n berryg i'r cyhoedd gan nad oedd y Gwaith wedi ei gwblhau. Penderfynwyd y byddai'r cynghorydd Aron Roberts yn gofyn i Mr David Owen am ddiweddariad am y meinciau.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddwyd bod y clerc wedi derbyn e-bost gan Rhys Llwyd yn gofyn a oedd yna unrhyw unigolyn penodol yn cynrychioli'r Cyngor ar y mater (i drefnu cyfarfodydd ac ati)? A hefyd a oeddem derbyn y cynnig mesur digidol yn uniongyrchol? Penderfynwyd yrru'r e-bost ymlaen i'r cynghorydd Keith O'Brien a gyrru e-bost i Rhys yn ymhelaethu ar beth yw'r cynig mesur digidol.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Adroddodd y clerc nad oedd ymateb i'w hebost i Elin Parry Jones yn gofyn am ddiweddariad. Penderfynwyd ail yrru'r e-bost a chynnwys Liz Savile yn ye e-bost y tro hwn.

2327(2) - Sedd Wâg – Llenwyd un sedd wag gan Mr Iwan Jones. Penderfynwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn paratoi taflen i roi ar Facebook i hysbysebu bod un sedd wag yn parhau i fod a bod y cynghorydd Hefin Jones am roi hwn ar Facebook y cyngor a hefyd safle we'r Cyngor.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddwyd bod Adra wedi ymateb i'r e-bost gyda'r ohebiaeth flaenorol yn nodi bod y mater wedi ei basio ymlaen i gyfreithwyr allanol. Cytunwyd i e-bostio'n ôl yn nodi bod tir rhif 5 yn eiddo i Adra.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddodd y swyddog ariannol ei bod yn cymeryd bod GWE Cambrian yn parhau i weithio ar y wefan. Penderfynwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn e-bostio GWE Cambrian i ofyn am ddiweddariad pellach.

2367(7) – Cwmni Eginio – Adroddwyd bod y clerc wedi e-bostio'n gwahodd Stephen Bray i'r cyfarfod ar y 6ed o Dachwedd. Nid oedd cadarnhad wedi ei dderbyn os oedd am fynychu a'i pheidio.

2379(2) Drain ar ffordd Stesion – Adroddwyd bod y clerc wedi gyrru lluniau o'r safle iddo a nad oedd wedi derbyn ymateb pellach.

2379(4) Bryn y Gofeb – Adroddwyd bod Elfyn John Owen yn fodlon edrych ar y gwaith ym Mryn y Gofeb ac am roi gwybod i'r cynghorydd Enid Roberts pe bai'n medru gwneud y gwaith.

2381 – Ethol Swyddogion – Adroddoddwyd y byddai'r Cynghorydd Hefin Jones yn fodlon bod yn Is-gadeirydd hyd at fis Mai.

2391(4) – Mooring No. 1 - Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi derbyn e-bost yn dweud bod bar cyfyngiad uchder am gael ei osod ar y safle erbyn diwedd mis Hydref.

2398(3) – Gwaith Garddio - Adroddwyd bod y cynghorydd Enid Roberts wedi trafod gyda Mr Andrews ac am drefnu i gyfarfod ag o yn y dyfodol agos er mwyn trefnu rhaglen waith.

2407 – GOHEBIAETH

- (1) Cais Cynllunio - NP5/78/2V -Cais ôl-weithredol i godi storfa ail-gylchu – Cytunwyd derbyn a chefnogi'r cais.
- (2) Cais Cynllunio - NP5/78/2W - Cais cynllunio ôl-weithredol am gaban newydd a gosod decin allanol – Codwyd pryder yma am y deunydd a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr adeilad. Penderfynwyd y byddai'r Cynghorydd Sir Elfed Roberts am ddarganfod beth yw'r deunydd.
- (3) Adrian Roberts 7Y: Adroddwyd bod gwahoddiad wedi dod i law gan Adrian Roberts i gyfarfod ar yr 21ain o Hydref. Yn y cyfarfod bydd sgwrs gychwynol am fuddsoddiad a phartneriaeth polisi ac arloesi lleol LPIP Cymru. Bu sgwrs gychwynol yng nghwmni Eifiona Lane a Lowri Cunningham yn y gorffennol ond oherwydd amgylchiadau nid oedd llawer o drigolion wedi mynychu. Erbyn hyn mae'r rhaglen wedi derbyn buddsiddiad ar gyfer gweithredu a bydd Jessie a Amy yn awyddus i drafod y cyflaenod am sut all y gwaith eich helpu chi. Adroddwyd bod Adrian wedi cyfarfod yn barod gyda Amy a Jessie er mwyn egluro uchelgais pobl y pentref i adnewyddu'r neuadd. Adroddodd y cynghorydd Hefin Jones y byddai'n gyrru'r ohebiaeth ymlaen i weddill o aelodau'r cyngor.

2408 - ADRODDIAD ARIANNOL

- (1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.
- (2) Adroddwyd bod arian mawr yn awr yn y banc. Ymatebodd Un Llais Cymru I gais y Swyddog Ariannol gan ddweud y gall y Cyngor barhau i hawlio praesept gan nad yw'r arian sydd yn y banc yn cyfrif. Dywedodd Un Llais Cymru y byddai yn bosib i'r arian gael ei ddefnyddio'r i gefnogi'r gymuned a soniwyd am y Neuadd Gyhoeddus. Cadarnhaodd Un Llais Cymru bod archwiliad llawn yn cael ei gynnal bob 3 mlynedd.
- (3) Adroddwyd bod anfoneb wedi dod i law gan Evan Thomas a'i Feibion. Roedd nodyn ar yr anfoneb yn dweud bod cryn drael ar y gadwen ar y bont yng nghae chwarae Tŷ Llwyd. Cytunwyd i ofyn iddyn nhw drwsio hwn ac i yrru e-bost i'r cyngor i ofyn am unigolyn i ddod i archwilio gweddill y cyfarpar yn y cae chwarae.

2409- MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

- (1) Adroddodd y clerc bod Adrian Williams wedi cyfeirio'r mater at beiriannydd Strwythurol asesu'r safle gyda'r coed helyg a byddai yn ein diweddar'u'n dilyn hyn.
- (2) Adroddodd y clerc ei bod wedi adrodd i'r DVLA am y cerbyd oedd yn y maes parcio yn anghyfreithlon. Adroddwyd bod y camperfan felyn wedi ei gwerthu i ddyn o'r enw Steve Gilmore, dywedodd y cynghorydd Richard Davies y byddai'n dod o hyd i fanylion cyswllt Steve Gilmore ac yn ei rannu ar clerc. Penderfynwyd yrru llythyr i adran orfodaeth y cyngor er mwyn egluro beth sy'n mynd ymlaen yn y maes parcio ac am y diffyg lle.
- (3) Adroddwyd bod y clerc wedi derbyn ymateb bod y mater ynglyn a arwyddion wedi torri a gyda phaneli ar goll ar waelod y gyffordd tuag at Bala yn cael ei gyfeirio ymlaen i Merfyn o'r adran cefnffyrdd.
- (4) Adroddodd y cynghorydd Sir bod angen padiau ar y diffibiwlator yn y pentref. Roedd y cynghorydd Sir am ddaraganfod beth yw'r pris ar gyfer y cyfarfod nesaf.
- (5) Cytunwyd i'r swyddog ariannol archebu dwy dorch ar gyfer Sul y cofio.
- (6) Cafwyd e-bost gan Anest Smith yn nodi bod pwyllgor cymdeithas Abergeirw wedi sylwi fod coeden wedi disgyn ar y llwybr cyhoeddus rhwng y ceunant Bryn y Gath a Phant Glas, yn ogystal a phont droed wedi torri. Gyrrwyd map o'r safle I mewn gan Anest a cytunwyd i gysylltu gyda Gwyn o'r adran llwybrau cyngor Gwynedd.
- (7) Adroddwyd bod pryder bod bysus methu pasio ar adegau yn ymyl Garej Ty'n y Pistyll oherwydd y nifer o geir ar y ffordd. Cytunwyd cysylltu gyda Adrian Williams am y mater.

2410 - MATERION AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

- (1) Adroddodd y cynghorydd Elfed Roberts bod dau gyfarfod pwysig yn ystod y mis. Un cyfarfod am Mhlas Tan y Bwlch ar y 14eg o Hydref. A chyfarfod ar y 5ed o Hydref I drafod Coed y Brenin sydd hefyd oddi tan fygythiad ofnadwy.
- (2) Adroddodd y cynghorydd Idwal Williams bod angen trafod archebu Coeden Nadolig yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd adroddiadau o'r cyfarfodydd yn ystod y mis.